CIWB

**Tasg 1**

# Ydych chi o dan straen?

1. Rhowch gopi o'r grid i bawb.
2. Gweithiwch gyda phartner:
   • Gofynnwch y cwestiynau yma i bartner.
   • Rhowch ✓ **(Ydw)** neu ✗ **(Nac ydw)** yn y grid.

3. Torrwch y cardiau allan.

✂

| | |
|---|---|
| Wyt ti'n teimlo o dan straen? | Wyt ti'n teimlo o dan straen yn yr ysgol? |
| Wyt ti'n teimlo o dan straen gyda ffrindiau? | Wyt ti'n teimlo o dan straen amser cinio yn yr ysgol? |
| Wyt ti'n teimlo o dan straen pan wyt ti'n mynd allan, e.e. i barti, i ddawnsio? | Wyt ti'n teimlo o dan straen gyda'r teulu? |
| Wyt ti'n gwneud chwaraeon i ddelio gyda straen? | Wyt ti'n gwylio ffilm i ddelio gyda straen? |
| Wyt ti'n bwyta siocled i ddelio gyda straen? | Wyt ti'n gwrando ar gerddoriaeth i ddelio gyda straen? |
| Wyt ti'n darllen i ddelio gyda straen? | Wyt ti'n siarad â rhywun pan wyt ti o dan straen? |

4. Ewch i grwpiau mawr, e.e. grwpiau o 8 neu 10 neu 12 person.
   Rhowch bob cerdyn melyn i un person.
   Rhowch bob cerdyn glas i berson arall ... ac ati.
   (Efallai bydd rhaid rhoi mwy nag un lliw i rai pobl.)

5. Cyfrwch ... a llenwch y grid – o dan **Faint?**

| | | Faint? | y cant % |
|---|---|---|---|
| 1. | Faint o'r grŵp sy o dan straen? | | |
| 2. | Faint o'r grŵp sy o dan straen yn yr ysgol? | | |
| 3. | Faint o'r grŵp sy o dan straen gyda ffrindiau? | | |
| 4. | Faint o'r grŵp sy o dan straen amser cinio yn yr ysgol? | | |
| 5. | Faint o'r grŵp sy o dan straen pan maen nhw'n mynd allan, e.e. i barti, i ddawnsio? | | |
| 6. | Faint o'r grŵp sy o dan straen gyda'r teulu? | | |
| 7. | Faint o'r grŵp sy'n gwneud chwaraeon i ddelio gyda straen? | | |
| 8. | Faint o'r grŵp sy'n gwylio ffilm i ddelio gyda straen? | | |
| 9. | Faint o'r grŵp sy'n bwyta siocled i i ddelio gyda straen? | | |
| 10. | Faint o'r grŵp sy'n gwrando ar gerddoriaeth i ddelio gyda straen? | | |
| 11. | Faint o'r grŵp sy'n darllen i ddelio gyda straen? | | |
| 12. | Faint o'r grŵp sy'n siarad â rhywun pan maen nhw o dan straen? | | |

6. Cyfrifwch y canrannau a llenwch y grid – o dan **y cant %.**
Cymharwch eich atebion chi gydag atebion person arall.

Os ydych chi eisiau darllen am ffyrdd eraill o ddelio gyda straen, ewch i **Ymlacio ar draws y byd (2)**.

| Geirfa | |
|---|---|
| rhowch | give |
| cyfrwch | count |
| pob | all, every |
| ac ati | etc. |
| cyfrif | to count |
| canran, canrannau | percentage, percentages |
| cyfrifo | to calculate |
| ffyrdd eraill | other ways |
| cymharu | to compare |